Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Goblygiadau ariannol y Bil Seilwaith (Cymru)

Tachwedd 2023

# 1. Cyflwyniad

**1.** Cyflwynwyd y Bil Seilwaith (Cymru)[1] (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol[2] (y Memorandwm), gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog) ar 12 Mehefin 2023.

**2.** Darparodd Llywodraeth Cymru hefyd Bapur Methodoleg Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n rhoi rhagor o fanylion am gostau'r opsiynau amrywiol a amlinellir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.[3]

**3.** Ar 13 Mehefin 2023, gwnaeth y Gweinidog ddatganiad rhagarweiniol ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn[4].

**4.** Clywodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth ar oblygiadau ariannol y Bil ar 28 Mehefin 2023[5], gan:

- Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd;
- Neil Hemington, Prif Gynllunydd, Llywodraeth Cymru
- Owen Struthers, Pennaeth Cydsynio Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

**5.** Bu Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn gwneud gwaith craffu ar y Bil o ran polisi.[6]

**6.** Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil hefyd o ran y materion sy'n dod o fewn ei gylch gwaith.[7]

[1] Llywodraeth Cymru, Bil Seilwaith (Cymru)
[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol
[3] Llywodraeth Cymru, Papur Methodoleg
[4] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 13 Mehefin 2023
[5] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 28 Mehefin 2023
[6] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
[7] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

# 2. Diben y Bil a'r angen amdano

**7.** Mae'r Bil yn cynnig newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cydsynio seilwaith yng Nghymru ac yn y môr tiriogaethol cyfagos i Gymru. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai nod y Bil yw sefydlu proses gydsynio unedig ar gyfer datblygu seilwaith yng Nghymru ac yn nyfroedd Cymru, gan ddisodli sawl cyfundrefn statudol. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y dull newydd fel 'siop un stop'.[8]

**8.** Bydd y math newydd o gydsyniad yn cael ei alw yn 'Gydsyniad Seilwaith' ("CS") a bydd yn cael ei roi mewn perthynas â phrosiectau a ragnodir fel 'Prosiect Seilwaith Arwyddocaol' ("PSA"). Mae categorïau o seilwaith a fydd yn cael statws PSA yn cynnwys prosiectau ynni, trafnidiaeth, gwastraff a dŵr, ymhlith mathau eraill o seilwaith. Rhaid i ddatblygwyr gael CS ar gyfer PSA, a bwriedir i'r CS gynnwys yr amrywiaeth lawn o awdurdodiadau sy'n ofynnol i alluogi'r datblygiad i fynd rhagddo.[9]

**9.** Dywedodd y Gweinidog mai gwahanol fath o Fil yw hwn ac nid Bil polisi.[10] Ychwanegodd ei bod yn bwysig iawn deall nad yw'r Bil yn ceisio dylanwadu na newid unrhyw fframwaith polisi y mae'r penderfyniadau'n seiliedig arno.[11]

**10.** Ar hyn o bryd, gwneir ceisiadau o dan wahanol gyfundrefnau gyda gwahanol weithdrefnau. Gall fod nifer o gamau i benderfyniad, a gall fod angen sawl cydsyniad ar gyfer datblygiad.[12] Ar gyfer rhai datblygiadau, mae'n bosibl y bydd gofynion ar gyfer ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio hefyd. Dywed y Memorandwm Esboniadol:

> *"… mae'r gwahaniaethau rhwng cyfundrefnau wedi parhau ac ehangu ymhellach yn sgil datganoli seilwaith ynni o dan Ddeddf Cymru 2017. Mae hyn wedi arwain at nifer o anghysondebau rhwng cyfundrefnau cydsynio ar gyfer datblygiadau y mae eu heffaith yn debyg ac yn gofyn am awdurdodiadau tebyg."*[13]

[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 7
[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 5
[10] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 236, 28 Mehefin 2023
[11] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 166, 28 Mehefin 2023
[12] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 8
[13] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 9

**11.** Mae'r broses gydsynio a ystyriwyd yn cynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr, cymunedau ac ymgyngoreion statudol. Dywedodd y Gweinidog fod cyfres hir o ymgysylltiadau wedi'i chynnal â'r rhanddeiliaid amrywiol, er mwyn sicrhau bod y newidiadau arfaethedig yn ystyried eu gofynion.[14]

**12.** Cadarnhaodd fod papur ymgynghori ffurfiol wedi'i gyhoeddi yn 2018 a oedd yn cynnwys prif egwyddorion y Bil a'r manteision posibl ynddo. Ychwanegodd:

> *"…then we did an analysis of the consultation responses, which were generally positive—a lot of support for this unified consenting process that we're looking at here. And then we had a real in-depth look with local authorities and with the Wales planning inspectorate division—Planning and Environment Decisions Wales—to understand their expected costs, because that's where most of the impact would be, including undertaking new functions with the new consenting process."*[15]

**13.** Dywedodd y Gweinidog fod y Bil wedi bod yn hir yn dod a'i fod wedi bod yn cael ei lunio ers cryn amser.[16] Ychwanegodd:

> *"there's broad, general consent that this is a good thing and that it will streamline the process and assist people to get to the outcome that's desired."*[17]

## Barn y Pwyllgor

**14.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu nod y Bil hwn i sefydlu proses gydsynio unedig ar gyfer datblygu seilwaith. Rydym hefyd wedi'n calonogi gan y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd wrth ddatblygu'r Bil. Gall prosesau cydsynio fod yn feichus a chymryd llawer o amser ac mae cyfuno nifer o fathau o gydsyniadau mewn un broses â'r potensial i gael effaith gadarnhaol. Gobeithiwn y bydd y dull symlach hwn yn arwain at arbedion effeithlonrwydd i bawb sy'n ymwneud â'r broses.

**Conclusion 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r

[14] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 168, 28 Mehefin 2023
[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 169, 28 Mehefin 2023
[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 168, 28 Mehefin 2023
[17] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 170, 28 Mehefin 2023

argymhellion yn yr adroddiad hwn. Os bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o ganlyniad i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am drafod y newidiadau hynny'n fanylach.

# 3. Goblygiadau ariannol y Bil

## Data a thystiolaeth

**15.** Mae'r sylfaen dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r amcangyfrifon cost yn yr Asesiad yn cynnwys adroddiad 2019 gan Arup. Dywedodd swyddog y Gweinidog fod adroddiad Arup wedi'i gynnal i ganfod beth yw'r costau i'r sector datblygu sy'n deillio o'r Bil.[18]

**16.** Y costau mwyaf a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (ar draws yr holl opsiynau) yw'r rhai sy'n gysylltiedig â datblygwyr. Fodd bynnag, dywed adroddiad Arup, mewn rhai meysydd, fod amcangyfrifon wedi defnyddio nifer gyfyngedig o ymatebion gan ddatblygwyr wrth gyfrifo costau.[19]

**17.** Tynnodd swyddog y Gweinidog sylw at y materion a wynebir o ran cael data costau gan ddatblygwyr oherwydd natur fasnachol sensitif y wybodaeth.[20] Ymhelaethodd:

> *"We've got to remember that, when developers engage people in this area, it's a competitive process, so different consultancies are asked to bid. So, they are a little bit reticent about sharing their exact costs."*[21]

**18.** Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog ei bod yn hapus iawn bod Arup wedi cymryd agwedd gadarn wrth goladu'r data ac, i liniaru hynny, eu bod wedi cynnal ymarfer dilysu costau a brofwyd gyda datblygwyr.[22]

**19.** Eglurodd swyddog y Gweinidog fod ymarfer gwella wedi'i gynnal i ddiweddaru'r wybodaeth o adroddiad 2019. Dywedodd:

> *"…we did work particularly closely with local planning authorities and Planning and Environment Decisions Wales.*

[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 177, 28 Mehefin 2023
[19] Llywodraeth Cymru, Cost datblygu seilwaith yng Nghymru
[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 177, 28 Mehefin 2023
[21] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 177, 28 Mehefin 2023
[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 191, 28 Mehefin 2023

> *We've got to acknowledge that a large part of this process is based on, or similar to, the existing developments of national significance regime. As those costs are costs that are incurred either by Welsh Government or by PEDW, we do know with a degree of certainty about those costs. So, we are confident as we can be that the costs we've identified for the development sector are accurate and appropriate.”*[23]

**20.** Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn asesu costau'r gwahanol gyfundrefnau cydsynio. Defnyddir y dadansoddiad ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i amcangyfrif agweddau ar gostau cyfundrefnau eraill.[24] Er enghraifft, asesir bod costau Llywodraeth Cymru sy’n gysylltiedig â Gorchmynion Trafnidiaeth a Gweithfeydd yn cyfateb i benderfynu ar gais DAC cymhlethdod uchel.[25]

**21.** Dywedodd swyddog y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda’r datblygwyr i alinio’r broses mor agos â phosibl â’r drefn DAC, gan fynd ymlaen i ddweud mai defnyddio’r costau DAC oedd yr amcangyfrif gorau y gallent eu llunio yn seiliedig ar y prosesau hynny.[26]

**22.** Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i’r Pwyllgor:

> *“…having negotiated with these old systems with the developers, the process that was eventually used looked more like a DNS application than it did any of the others, and so everyone was happy with that.”*[27]

**23.** Darparwyd Papur Methodoleg ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n rhoi manylion ychwanegol am y gwaith y tu ôl i’r costau ar gyfer yr opsiynau. Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai’n bolisi gan y llywodraeth i lunio dogfen o’r fath ar gyfer pob Bil yn y dyfodol.

**24.** Dywedodd y Gweinidog ei bod yn teimlo bod y papur yn wirioneddol glir a thryloyw ar sut y cafodd y costau eu datblygu ac os yw’n gweithio a bod y pwyllgor yn ei hoffi, efallai yr ystyrir llunio dogfennau o’r fath ar gyfer Biliau yn y dyfodol.[28]. Ychwanegodd:

---

[23] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 177, 28 Mehefin 2023
[24] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 69
[25] Llywodraeth Cymru, Papur Methodoleg, tudalen 12
[26] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 194, 28 Mehefin 2023
[27] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 194, 28 Mehefin 2023
[28] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 179, 28 Mehefin 2023

> *"...the idea is that the costs and savings are as transparent as we can make them, because we're also trying to keep our stakeholders on board and happy with the process. So, we hope that the committee finds the paper helpful and that it's assisted in understanding how the costs in the RIA have been arrived at."*[29]

## Barn y Pwyllgor

**25.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod adroddiad Arup 2019 wedi bod yn sail ddefnyddiol i lywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod rhai gwendidau o ystyried cyfyngiadau'r data sydd ar gael, yn enwedig mewn perthynas â chostau penodol sy'n gysylltiedig â datblygwyr. Rydym yn cydnabod barn y Gweinidog bod hyn yn gysylltiedig â natur fasnachol sensitif y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Fodd bynnag, mae'n galonogol clywed bod ymarfer dilysu costau pellach wedi'i gynnal.

**26.** Nodwn fod y ceisiadau DAC wedi cael eu defnyddio fel sail ar gyfer cyfrifo costau cyfundrefnau cydsynio eraill a chlywsom mai dyma'r wybodaeth fwyaf priodol i'w defnyddio.

**27.** Canfu'r Pwyllgor fod y Papur Methodoleg a ddarparwyd ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ddefnyddiol iawn. Mae'r Pwyllgor wedi dadlau ers tro y dylai Llywodraeth Cymru 'ddangos ei gwaith cyfrifo' o ran llunio amcangyfrifon cost. Gwnaethom hefyd ganfod bod y manylion a ddarparwyd yn y papur ar sut y datblygwyd costau ar gyfer yr opsiynau amrywiol a amlinellwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi tryloywder pellach. Fodd bynnag, gan mai dyma'r tro cyntaf i Bapur Methodoleg gael ei lunio, mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall mwy am sut a phryd y caiff papurau o'r fath eu cyhoeddi a beth fydd dull cyffredinol Llywodraeth Cymru o ddarparu gwybodaeth o'r fath yn y dyfodol.

**Recommendation 1.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod y papur methodoleg a ddarparwyd mewn perthynas â'r Bil hwn yn fodel arfer da ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol. Felly, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnwys manylion o'r fath, a ddefnyddir i lywio'r amcangyfrifon cost sy'n deillio o bob Bil, o fewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, yn hytrach nag fel dogfennau ar wahân, fel mater o egwyddor.

[29] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 179, 28 Mehefin 2023

## Costau, arbedion a manteision

**28.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi cymunedau fel un o'r grwpiau a allai fynd i gostau, fodd bynnag, nid yw'n rhoi unrhyw amcangyfrifon i'r grŵp hwn ar gyfer unrhyw un o'r opsiynau a amlinellwyd.[30] Mae'n dweud y gall cymunedau a phartïon â diddordeb adolygu datblygiadau arfaethedig a gwneud sylwadau arnynt.[31] Fodd bynnag, er bod cost amser wrth gymryd rhan, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod y gost:

> *"…yn amrywio, gan ddibynnu ar gefndir yr ymatebydd a natur ei ymateb. Felly, nid oes modd darparu swm yn seiliedig ar yr amser a gaiff ei dreulio yn cyflwyno sylwadau ar gynlluniau arfaethedig. Felly mae'r gost hon yn anhysbys."*[32]

**29.** Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith y bydd cyfuno'r prosesau hyn â'r drefn gydsynio seilwaith sengl yn ei gwneud yn llawer mwy agored a thryloyw i gymunedau ac yn rhoi dealltwriaeth well o lawer iddynt o sut i fynegi eu barn.[33]

**30.** Amlinellodd swyddog y Gweinidog yr anawsterau o ran mesur y buddion i gymunedau:

> *"… for example, we don't know how much actual cost communities incur in engaging with this process, but what we can say, I think, with some certainty is if they engage once with one process, it's likely to be less than engaging multiple times with multiple processes. So, although we are happy to say that there are positive outcomes in terms of cost, we cannot, obviously, pin that down to a monetary figure."*[34]

**31.** Mae costau trosiannol o £418,600 yn gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth, ac yna costau parhaus o £4.3 miliwn y flwyddyn. Dros y cyfnod arfarnu o bum mlynedd, sef 2024-25 i 2028-29, cyfanswm cost yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan Lywodraeth Cymru yw £17.5 miliwn.[35] O'i gymharu â'r system bresennol, mae hyn yn arbediad net o £2.2 miliwn dros y cyfnod arfarnu. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi:

[30] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 64
[31] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 73
[32] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 74
[33] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 200, 28 Mehefin 2023
[34] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 174, 28 Mehefin 2023
[35] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 107

*“Yn ogystal â'r arbedion cost a nodwyd, bydd y Bil yn cynnig manteision sylweddol yn ychwanegol at y rhai hynny y gellir eu meintioli ar sail ariannol, drwy gynnig proses gydsynio symlach, fwy unedig ar gyfer gwneud penderfyniadau ar PSAau.”*[36]

**32.** Mewn perthynas â’r manteision anfesuradwy hyn, esboniodd y Gweinidog fod hyn i gyd yn ymwneud ag effaith symleiddio’r broses hon a sut mae’r amrywiol ymgyngoreion cyhoeddus yn ymateb[37]. Rhoddodd enghraifft o brosiect datblygu llifogydd mawr y dywedodd:

*“…a flood development project might need a marine licence, it might need planning consent, it might need highways consent, it might need a harbour revision authority order—there are a range of things. As it stands at the moment, a developer who wanted to do that—and, often, the Welsh Government is the one who's trying to put flood defences in—would have to go round the range of things there and speak to the various consultees about it. Frankly, quite often, they're the same consultees—you'd speak to NRW on the marine licence, and then later on they'd be a statutory consultee on the planning consent, and so on. So, we think it allows them to streamline and co-ordinate their response.”*[38]

**33.** Er y dywedodd y Gweinidog ei bod yn anodd mesur y buddion[39], dywedodd wrth y Pwyllgor:

*“…the one-stop shop provides a significant streamlining for the developers, and, I think, from the developers that I've spoken to, which are a very large number of the ones who have an interest in, for example, floating wind, they're very happy with the process and looking forward to it becoming the way that they deal with it.”*[40]

**34.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi ffioedd a chostau sy’n cael eu ‘had-dalu’. Tynnir swm net yng nghostau cyffredinol yr Asesiad Effaith

[36] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 57
[37] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 173, 28 Mehefin 2023
[38] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 173, 28 Mehefin 2023
[39] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 173, 28 Mehefin 2023
[40] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 191, 28 Mehefin 2023

Rheoleiddiol. Dywedodd swyddog y Gweinidog fod y dull hwn wedi'i gymryd oherwydd, ymhlith pethau eraill, eu bod yn ceisio adennill costau llawn.[41]

**35.** Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae cymwysiadau seilwaith wedi'u rhannu'n dair lefel yn seiliedig ar eu cymhlethdod tebygol: cymhlethdod isel, canolig neu uchel.[42]

**36.** Eglurodd swyddog y Gweinidog fod ceisiadau wedi'u categoreiddio ar sail arbenigedd technegol a gwybodaeth am y cymwysiadau a welwyd yn flaenorol.[43] Dywedodd hefyd:

> *"We've looked back at the types of application received, and, critically, we've looked at how they've been dealt with by PEDW. So, obviously the more straightforward applications have been dealt with through a written representations procedure, with the most complicated ones going to inquiry. So, that has been of assistance to us in that categorisation process. When we're looking at the existing situation, where there are multiple consents required, we've based it on the most complicated one of the multiple consents. So, as the Minister mentioned previously, this is about a one-stop shop."*[44]

**37.** Ar gyfer Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol, mae'r Bil yn cynnig haen o drothwyon dewisol a meini prawf islaw'r lefelau gorfodol. Dywedodd y Gweinidog:

> *"There are thresholds that set out which applications fall into this and which don't, and they're set out on the face of the Bill. But we'll also use guidance for stakeholders in understanding the type of project that might be directed to be a significant infrastructure project… So, something that falls below the threshold—a fairly small onshore windfarm, for example, that's below the threshold—doesn't fall automatically into this, but because of its siting or a particular thing that's happening locally—it's highly controversial and it's having an impact on perhaps the way that the grid connections work locally and so on—it might be that we take the view that, even though it's*

[41] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 217, 28 Mehefin 2023
[42] Llywodraeth Cymru, Papur Methodoleg, tudalen 5
[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 187, 28 Mehefin 2023
[44] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 187, 28 Mehefin 2023

> *below the threshold, it actually has a much more significant impact on Welsh life than would otherwise be the case. So, we'd have the ability to option it into the system, if you like."*[45]

## Barn y Pwyllgor

**38.** Mae'n siomedig na chafodd y costau i'r cymunedau eu hamcangyfrif yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Felly, rydym yn ailadrodd ein barn a wnaed yn ein hadroddiad ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru):

> *"…pwysigrwydd cwblhau asesiadau costau cyn cyflwyno Bil, nid yn unig er mwyn sicrhau y gall y Senedd graffu'n briodol arno, ond hefyd i sicrhau bod y rhanddeiliaid y mae'r Bil yn effeithio arnynt yn deall y goblygiadau o ran adnoddau yn iawn."*[46]

**39.** Gwyddom fod yna gost i gymunedau o ran eu hamser a'u hymdrechion i gymryd rhan yn y prosesau hyn. Er ein bod yn gwerthfawrogi bod hyn yn gymhleth i'w gyfrifo ac y bydd amcangyfrifon yn amrywio, yn dibynnu ar natur yr ymatebion a'r cyfranogiad, teimlwn y gellid bod wedi gwneud mwy o waith a darparu mwy o fanylion ar sut y bydd y buddion hyn yn dod i'r amlwg. Serch hynny, rydym yn cydnabod y dylai symleiddio'r prosesau hyn arwain at ostyngiad mewn costau o'r fath i gyfranogwyr ac rydym yn gobeithio y bydd y system yn haws ei deall. Gall hyn, yn ei dro, arwain at fwy o ymgysylltu gan gymunedau a phartïon â diddordeb.

**Recommendation 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gwneud y canlynol a bod y wybodaeth yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, ar ôl Cyfnod 2:

- gwneud gwaith modelu pellach i nodi'r costau a'r manteision i gymunedau a/neu bartïon â diddordeb sy'n deillio o'r Bil. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys dadansoddiad i ddangos yr ystod bosibl o gostau a manteision a allai godi; a
- darparu enghreifftiau neu ragor o wybodaeth am gyfranogiad y gymuned, sut mae hynny'n gweithio ar hyn o bryd, pwy sy'n cymryd rhan a sut y gallai newid o ganlyniad i'r Bil.

[45] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 219, 28 Mehefin 2023
[46] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad ar oblygiadau ariannol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), Mawrth 2022

**40.** Mae'n bleser gan y Pwyllgor nodi y bydd cyfanswm arbediad net o £2.2 miliwn dros y cyfnod arfarnu pum mlynedd o gymharu â'r system bresennol. Rydym hefyd yn nodi honiadau y bydd y Bil yn arwain at fuddion nad oes modd eu mesur yn ariannol. Rydym yn cydnabod y bydd arbedion tebygol o ganlyniad i drefn gydsynio symlach, ond byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu rhagor o wybodaeth am y buddion a amlinellwyd. Er y dylai fod rhywfaint o ymdrech i'w meintioli yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ddelfrydol, byddai'r Pwyllgor yn croesawu mwy o fanylion ynghylch ble, sut a phryd y gallai'r buddion hynny ddigwydd a phwy fydd yn elwa. Credwn y dylai unrhyw honiadau o fanteision sylweddol sy'n deillio o Fil gael eu hategu bob amser gan gostau cadarn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, lle bynnag y bo modd.

**Recommendation 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gwneud rhagor o waith o ran y buddion ariannol sy'n deillio o broses gydsynio symlach. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, ar ôl Cyfnod 2.

**41.** Nodwn fod y Gweinidog yn bwriadu i'r drefn gydsynio newydd weithredu ar sail adennill costau llawn. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall yn fanylach sut y bydd hyn yn gweithio a sut y bydd yn cymharu â'r system bresennol, yn enwedig o ran yr effaith ar ddatblygwyr.

**Recommendation 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd ffioedd yn amrywio o dan y drefn newydd, o gymharu â'r drefn bresennol, ac effaith hyn ar randdeiliaid perthnasol.

**42.** Ar gyfer Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol, mae'r Bil yn cynnig haen o drothwyon dewisol a meini prawf islaw'r lefelau gorfodol, a nodwn y bydd y Gweinidog yn cyhoeddi canllawiau i randdeiliaid. Rydym yn gwerthfawrogi hyblygrwydd cael trothwy dewisol. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol deall ymhellach sut y gallai'r broses sy'n gysylltiedig â'r trothwy dewisol weithio'n ymarferol, gan gynnwys sut y gallai hyn effeithio ar y costau a'r buddion sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Recommendation 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y broses sy'n gysylltiedig â'r trothwy dewisol, gan gynnwys a allai'r hyblygrwydd hwn arwain at rywfaint o amrywioldeb yn yr effeithlonrwydd a amlinellir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## Adolygiad ôl-weithredu

**43.** Mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amlinellu bod amserlenni statudol ar gyfer penderfynu ar geisiadau Cydsyniad Seilwaith wedi'u nodi yn y Bil. Mae darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod gerbron y Senedd adroddiadau blynyddol ar eu cydymffurfiaeth â'r amserlen statudol a'r defnydd o unrhyw gyfarwyddyd i ymestyn yr amserlen statudol honno fesul achos. Bydd y broses Cydsyniad Seilwaith yn cael ei monitro'n ffurfiol fel rhan o'r adroddiad hwnnw.[47]

**44.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig prosiect gwerthuso cyffredinol o fewn pum mlynedd i'w weithredu er mwyn mesur canlyniad y broses, ac "i nodi unrhyw welliannau yn y dyfodol y gallai fod eu hangen".[48]

**45.** O ystyried mai nod y Bil yw gwneud y broses yn fwy effeithlon, ymrwymodd y Gweinidog i'r gwerthusiad sy'n asesu costau a buddion cyffredinol y newid.[49] Fodd bynnag, mae'n nodi o ran yr asesiad:

> *"…it will be subject to all the same limitations as the current system, so we won't have all the development data, for example. It will be impossible because it's commercially sensitive and there'll be other issues with that. But, yes, we absolutely will do a review of that."*[50]

## Barn y Pwyllgor

**46.** Mae'r Pwyllgor yn ategu ei farn ei bod yn arfer da cynnwys adolygiad ôl-weithredu cadarn, gan helpu i sicrhau bod amcanion deddfwriaeth yn cael eu cyflawni yn unol â'r disgwyliadau a dangos y cyflawnwyd gwerth am arian. O ystyried bod y Bil hwn yn ymwneud â symleiddio proses, mae casglu gwybodaeth o'r fath yn bwysicach fyth. Rydym felly'n croesawu cynnwys yr adolygiad ôl-weithredu yn y Bil hwn ac ymrwymiad y Gweinidog i asesu costau a manteision cyffredinol y newid.

**Recommendation 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod unrhyw adolygiad ôl-weithredu yn asesu costau a buddion cyffredinol y drefn gydsynio newydd ac a yw hyn yn bodloni'r disgwyliadau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

---

[47] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 118
[48] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 118
[49] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 234, 28 Mehefin 2023
[50] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 234, 28 Mehefin 2023